**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (48)**

**Dydd Mercher, 5 Chwefror 2003**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma am y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes : Cynnydd o ran buddsoddi mewn adeiladau ysgolion**

**Eitem 4**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar gaffaeliad Allied Steel and Wire**

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo The Education (Pupil Referral Units)(Appeals Against Permanent Exclusion )(Wales) Regulations 2003**
**NDM1337 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr) - TYNNWYD YN OL.**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog 22.25, yn cymeradwyo'r fersiwn drafft o Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwahardd yn Barhaol) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 29 Ionawr 2003.

*[Sylwer: Nid oes Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau wedi'i osod mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 22.27 (i), (ii) a (iii].*

**Eitem 6**
**Cynnig i gymeradwyo Canllawiau Polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol a Chanllawiau Technegol (a gyhoeddwyd o dan Adran IV Deddf Amgylchedd 1995) o dan Reol**

**Sefydlog 23.10**
**NDM1336 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10:

Yn cymeradwyo'r Canllaw Polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol a'r Canllaw Technegol (a gyhoeddwyd o dan Adran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 29 Ionawr 2003.

Cafodd Memorandwm Esboniadol ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno a'i anfon at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 29 Ionawr 2003.

Cliciwch yma am y Canllaw Polisi.
Cliciwch yma am y Canllaw Technegol.
Cliciwch yma am y Memorandwm Esboniadol.

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003**
**NDM1334 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2003.

**NDM1335 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Tenantiaethau Preswyl Hir (Prif Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2003.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2003.

Cliciwch yma am y gorchymyn drafft.
Cliciwch yma am adroddiad y Pwyllgor Deddfau.

**Eitem 8**
**Dadl ar Adolygiad Pum Mlynedd Bwrdd Croeso Cymru**
**NDM1299 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu’r adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd Croeso Cymru ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr Adolygiad.

*E-bostiwyd Cam 1 (Adroddiad Interim ar yr Adolygiad), Cam 2 (Adroddiad Terfynol ar yr Adolygiad), ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion yr Adolygiad ddydd Mercher, 15 Ionawr 2003*

**Gwelliant 1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn llongyfarch Bwrdd Croeso Cymru ar ddefnyddio ei swyddogaethau a'i bwerau yn effeithiol wrth hyrwyddo Cymru o fewn y DU a thramor ac wrth wella ansawdd pob agwedd ar dwristiaeth, gan gyfrannu'n sylweddol at yr economi.'

**Gwelliant 2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod swyddogaeth Grantiau Adran 4 o ran gwella ansawdd pob agwedd ar dwristiaeth a'r hyblygrwydd y mae cynllun o'r fath yn ei ganiatáu i alluogi Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i economi Cymru.'

**Eitem 9**
**Dadl fer - NDM1333 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Ysbytai Cymunedol**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**